**BIDIAU CYFALAF 2020/21**

| | Teitl y Bid | Manylion y Bid | Swm a Argymhellir (£) |
|---|---|---|---|
| | **AMGYLCHEDD** | | |
| Cyf 1 | Darpariaeth pwyntiau gwefru cerbydau cyhoeddus | Mae bwriad o gyflwyno cais i Lywodraeth Prydain am arian cyfalaf er mwyn cael mwy o bwyntiau gwefru cyhoeddus i gerbydau trydan. Ond ni fydd y Llywodraeth yn ariannu 100% o'r prosiect - Dim ond meysydd parcio arhosiad hir sy'n gymwys. Nid yw'r grant yn cyllido 100% o'r costau yn y safleoedd sydd yn gymwys.<br><br>Meysydd Parcio sydd ddim yn gymwys am grant;<br>• Intec, Bangor<br>• Byw'n Iach – Bala, Bangor, Bethesda, Porthmadog, Caernarfon, Dolgellau, Pwllheli, Tywyn<br>• Maes Parcio – Glanrafon (Bangor), Glan-y-Môr Uchaf (Caernarfon), Gilfach Ddu (Llanberis), Ffordd y Cob (Pwllheli)<br><br>Meysydd Parcio sydd yn gymwys am grant<br>• Aberdyfi<br>• Abermaw<br>• Safle Shell, Caernarfon<br>• Llyn Bach, Porthmadog<br>• Sgwâr Kyffin, Bangor<br>• Ffordd Balaclafa, Caernarfon<br>• Ger-y-Llyn, Llanberis<br>• Bron-y-Graig Uchaf, Harlech | 456,000 |
| | **ECONOMI A CHYMUNED** | | |
| Cyf 2 | Cronfa Datblygu Gwirfoddol - Cyfalaf (CIST Gwynedd) | Mae CIST Gwynedd yn darparu grantiau refeniw a chyfalaf i grwpiau gwirfoddol ar draws y sir i ddatblygu a gwireddu prosiectau cymunedol. Cyflwynwyd bid am £70k yn 2019/20 a cymeradwywyd £50k, gyda'r arian wedi ei neilltuo i gefnogi 6 prosiect. | 50,000 |
| Cyf 3 | Pont Aberdyfi | Cyflwr Pont Aberdyfi wedi dirywio ac wedi dod i ddiwedd ei oes. Amcan gost am osod pont newydd yw £100k. Cyflwynir y bid ar y sail y byddai'r elusen Outward Bound (OB) yn cwrdd â 50% o gost y cynllun. Cafodd bid ei gyflwyno yn 2018/19 am swm o £114k. Ail-gyflwyno'r bid gan adlewyrchu cyfraniad OB a rhai arbedion yn sgil adolygu dyluniad y bont. | 50,000 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **TAI AC EIDDO** | | |
| Cyf 4 | Gwella diogelwch swyddfeydd Cae Penarlâg a Ffordd y Cob | I ariannu system Cerdyn Mynediad (System fynediad drysau AIT) i Ffordd y Cob a Chae Penarlâg. | 30,000 |
| | **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | |
| Cyf 5 | Golchi cerbydau graeanu Ardal Arfon | Mae'r angen i gael man golchi pwrpasol yn Storfa Halen Cibyn er sicrhau bod y cerbydau graeanu a'r cerbyd llwytho yn cael eu glanhau ar ddiwedd pob gweithred. Nid yw'r drefn bresennol yn cyfarfod y gofynion nac ychwaith yn cyd fynd â rheoliadau delio a dŵr llygredig. | 65,000 |
| Cyf 6 | Adeiladu pont newydd (Bodfel) dros yr Afon Rhyd-hir (Boduan) | Bu trafodaeth gyda Cadw a swyddogion Cadwraeth y Cyngor am ledu yr hen bont tra wrthi'n cario allan y gwaith cynnal,  ond nid oedd hyn yn dderbyniol. Rydym felly wedi gwyntyllu adeiladu pont newydd ar y safle y bont dros dro er ymateb pryderon diogelwch defnyddwyr yr hen ffordd drost y bont oherwydd ei bod yn gul ac ond lled un rhes o draffig. Bydd yr opsiwn yma hefyd yn lleihau ein gwariant anorfod o godi allan y pridd sydd o fewn yr hen bont a'i ail osod gyda concrid. | 1,200,000 |
| | **OEDOLION, IECHYD A LLESIANT** | | |
| Cyf 7 | Darpariaeth Di-wifr o fewn Cartrefi Preswyl y Cyngor | Helpu'r preswylwyr fod yn fwy annibynnol a llai unig. Galluogi gweithwyr o fewn y cartref i archebu nwyddau, cyflawni hyfforddiant ayyb ar-lein. Galluogi gweithwyr cymdeithasol/gweithwyr gofal i asesu ac arolygu achosion o fewn y Cartrefi a chofnodi yn y fan a'r lle. Sicrhau fod unigolion yn gallu "gweld" arbenigwyr mewn ysbytai ble mae diffyg trafnidiaeth i fynychu apwyntiadau. | 94,360 |
| Cyf 8 | RITA - System therapi atgof digidol mewn Cartrefi Preswyl | System fyddai yn atgyfnerthu bywyd unigolion sy'n byw gyda Dementia yn ein cartrefi preswyl. Gall gefnogi a hwyluso bywyd dydd i ddydd, cefnogi gweithgareddau ystyrlon, gan helpu gyda gwneud defnydd effeithiol o gapasiti y staff yn y gweithle. | 58,860 |
| | **CYFANSWM BIDIAU CYFALAF** | | **2,004,220** |